Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3409A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 4

Sefyllfa ariannol 5

Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Threfniadau hunanasesu 10

Cynllun lleihau carbon 11

Argymhellion 13

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Cynhaliwyd y prosiect hwn i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor, gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Roedd y prosiect hwn hefyd yn gymorth i ni allu asesu i ba raddau y mae’r Cyngor yn cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle rydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg manylach arnynt. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol ar ddechrau 2023 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Chwefror 2022.

3 Canolbwyntiwyd yn benodol ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Threfniadau Hunanasesu
- Cynllun lleihau carbon

4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys cyfweliadau ag uwch-swyddogion ac aelodau etholedig, ac adolygu dogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn. Rhoesom adborth ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg i swyddogion wrth i ni ymgymryd â'r gwaith hwn. Gwnaethom hefyd ddefnyddio sgyrsiau parhaus i gasglu safbwyntiau uwch-reolwyr am risgiau archwilio allweddol y cyngor ac i lywio ein blaengynllunio.

# Sefyllfa ariannol 2021-22

## Mae cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi helpu i wella sefyllfa ariannol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor lunio cynllun cynaliadwy i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylweddol sy'n dod i'r amlwg

6 Gwnaethom gwblhau adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis Awst a mis Medi 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa arian wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a pherfformiad arfaethedig o'u cymharu â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22.


7 Hefyd, gwnaethom gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022, sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Strategaeth ariannol

8 Dangosodd ein hadroddiad blaenorol, a gynhaliwyd ym mis Medi 202,1 yn ymwneud â sefydlogrwydd ariannol y Cyngor flwch sylweddol o ran cyllid yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rhai risgiau allweddol a allai effeithio ar ei gadernid ariannol. Fodd bynnag, nododd y Cyngor ei fod yn mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy wneud gwelliannau i'w drefniadau rheolaeth ariannol. Parhaodd y gwelliannau hyn yn 2021-22.


9 Gwnaeth y bwlch cyllid a ragwelwyd ar gyfer y Cyngor, fel y'i cyhoeddwyd yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ym mis Mawrth 2022, leihau £6.1 miliwn rhwng 2021 a 2022, o £9.243 miliwn ym mis Mawrth 2021 i £3.141 miliwn ym mis Mawrth 2022. Gwnaeth y blwch cyllid a ragwelwyd ar gyfer 2024-25 a 2025-26 leihau yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 y Cyngor hefyd, o'i gymharu â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2021.

**Arddangosyn 1: ym mis Mawrth 2022, cyfanswm blwch cyllid tymor canolig rhagamcanol y Cyngor ar gyfer 2023-24 oedd £3.14 miliwn – £6.1 miliwn yn is na’r rhagolwg yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2021**




10 Roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 y Cyngor hefyd yn ystyried diffyg cyllid cronnol a ragwelwyd. Roedd hyn yn dangos sefyllfa well o’i chymharu â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2021 , ond rhagwelwyd y bwlch cyllid cronnol ar yr un pryd i gyrraedd bron £15 miliwn dros y pedair blynedd ariannol nesaf.

**Arddangosyn 2: ym mis Mawrth 2022, cyfanswm blwch cyllid tymor canolig rhagamcanol y Cyngor erbyn 2026-27 oedd ychydig yn llai na £15 miliwn – o'i gymharu â £37 miliwn erbyn 2025-26 yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig flaenorol**




## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

11 Tyfodd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy y Cyngor bron £20 miliwn rhwng 2019-20 a 2020-21, o £28.6 miliwn i £47.8 miliwn. Roedd hwn yn dilyn gostyngiad yn 2018-19. Roedd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn cynrychioli 17.5% o'r costau net gwasanaethau a ragwelwyd ar gyfer y Cyngor yn 2020-21, sef cynnydd o saith y cant o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd gan y Cyngor y lefel isaf ond chwech o gronfeydd wrth gefn fel canran o gost net gwasanaethau yn 2020-21.

12 Cydnabu'r Cyngor yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022 fod cefnogaeth cronfa Galedi Llywodraeth Cymru wedi caniatáu iddo weithredu cyllidebau mantoledig yn 2020-21 a 2021-22, gan dderbyn £11.727 miliwn yn 2021-22 yn unig. Heb y cyllid hwn, byddai angen i'r Cyngor leihau ei wariant neu ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy er mwyn helpu i gyflawni cyllideb fantoledig.

13 Yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig mis Mawrth 2022, amlinellodd y Cyngor yr amgylchiadau y gallai fod yn ofynnol defnyddio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i gynnal cyllideb fantoledig yn 2023-24, gan gynnwys:

- trychinebau naturiol a phandemigau;
- y gofyniad cyfreithiol i gyflawni dyletswyddau statudol;
- y bygythiad cynyddol o ymgyfreitha;
- cynnydd mewn prisiau ynni.

**Arddangosyn 3: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Powys o'u cymharu â'r cyllid blynyddol**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost Net Gwasanaethau (£ Miliynau)** | 259.33 | 262.79 | 281.47 | 276.15 | 273.20 | 284.17 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy (£ Miliynau)** | 37.00 | 37.09 | 26.76 | 28.59 | 47.78 | 59.34 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau** | 14.3 | 14.1 | 9.5 | 10.4 | 17.5 | 20.9 |
| **Safle o'i chymharu â chynghorau eraill yng Nghymru** | 14eg | 14eg | 19eg | 15fed | 16eg | Ddim yn berthnasol |

## Cyflawni arbedion

14 Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion cronnol o £83.9 miliwn ers 2014-15. Dyma oedd 73.5% o arbedion a dargedwyd y Cyngor o £114.1 miliwn dros y cyfnod.

15 Yn 2021-22, cyflawnodd y Cyngor ei arbedion arfaethedig o £11.8 miliwn i gyflawni cyllid fantoledig yn erbyn £280.6 miliwn o wariant refeniw rhagamcanol, gyda £1.6 miliwn o arbedion heb eu cyflawni wedi'u trosglwyddo o 2020-21. Cyflawnwyd £9.4 miliwn o arbedion, gyda £1.4 miliwn yn cael ei ddileu a £2.6 miliwn ei drosglwyddo i 2022-23.

16 Yn ôl Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-2027 y Cyngor, cyflawnwyd £6.96 miliwn o arbedion yn 2021-22 a sicrhawyd £3.5 miliwn ychwanegol gan Benaethiaid Gwasanaeth. Ni chyflawnwyd y £2.94 miliwn (22% o'r arbedion a dargedwyd) sy'n weddill.

17 Mae lefelau'r arbedion hyn yn debyg i'r rheini a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol yn 2020-21. Yn ôl yr arbedion arfaethedig a dargedwyd o £10.8 miliwn yn 2020-21, a'r £1.6 miliwn a drosglwyddwyd i'w gyflawni y flwyddyn ganlynol, cyflawnwyd £9.5 miliwn, sef 76% o'r cyfanswm. O'r arbedion nas cyflawnwyd, trosglwyddwyd £1.6 miliwn i 2021-22, a chafodd £1.377 miliwn ei ddileu o gyllid 2022-23 gan ystyriwyd ei bod yn amhosibl ei chyflawni.

## Y Perfformiad o'i gymharu â'r gyllideb

18 Cyhoeddodd Archwilio Cymru Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021. Nododd yr adroddiad fod perfformiad y Cyngor yn ôl cyllid wedi gwella yn 2020-21 o'i gymharu â'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

19 Nododd y Cyngor orwariant mewn tri maes gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Chyllid), ond arweiniodd ffrydiau cyllido ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn hwyrach yn y flwyddyn at warged ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr holl wasanaethau.

20 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, nododd y Cyngor gyfanswm gwarged o £7.408 miliwn ar ei alldro cyllideb refeniw yn erbyn ffigur y gyllideb arfaethedig o £202.619 miliwn, sef amrywiant o 3.7%. Nid yw hyn yn cynnwys ysgolion dirprwyedig na'r Cyfrif Refeniw Tai.

21 Mae hyn yn cymharu â diwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2021, lle nodwyd gwarged o £4.24 miliwn yn erbyn cyllideb arfaethedig o £187.7 miliwn, heb gynnwys ysgolion a'r Cyfrif Refeniw Tai.

22 Darparodd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru £11.727 miliwn o gyllid i'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Ni fydd y cyllid hwn ar gael yn y flwyddyn ariannol 2022-23.

## Pwysau ar gyllidebau'r dyfodol

23 Ym mis Mawrth 2022, cydnabu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor y pwysau dynodedig ar ei sefyllfa ariannol yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys tynnu cyllid cronfa Galedi Llywodraeth Cymru yn ei ôl, ac effaith barhaus COVID-19 a phwysau eraill ar wasanaethau.

24 Mae gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor yn parhau i ddibynnu ar ystod o dybiaethau. Ynghyd â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol iawn i gynghorau.

25 Mae setliad cyllid dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Powys o 8.7% ar gyfer 2023-24 yn rhoi rhywfaint o sicrwydd cyllid dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd cynllunio ariannol yn y tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac ynghyd â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i gynghorau.

26 O ganlyniad i’r newidiadau diweddar yn yr hinsawdd economaidd-gymdeithasol, ac amcangyfrif y Cyngor o’r effaith y byddant yn ei chael ar ei gyllid, mae’n bwriadu cyhoeddi diweddariad i’w Strategaeth Ariannu Tymor Canolig mis Mawrth 2022 ym mis Rhagfyr 2022.

# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Threfniadau Hunanasesu

## Mae’r Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau ei hun ei fod yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a lluniodd ei adroddiad hunanasesu

27 Gwnaethom adolygu'r gwaith roedd y Cyngor yn ei wneud mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

28 Cynhaliwyd ein hasesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymateb i ofynion allweddol i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2022. Casglwyd y dystiolaeth drwy gyfweliadau ac adolygu dogfennau, ac roedd hefyd yn defnyddio canfyddiadau perthnasol o’n gwaith arall parhaus a diweddar yn y Cyngor. Roedd ein gwaith yn ystyried y trefniadau y mae’r Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

29 Rydym yn cydnabod bod ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynd rhagddo. Felly, rydym wedi darparu’r adborth hwn yn seiliedig ar ein gwaith ar adeg benodol.

30 Mae gan y Cyngor gynllun clir ar gyfer sut y mae'n bwriadu cynnal ei hunanasesiad ac mae wedi cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystod y broses.

31 Ni wnaeth y Cyngor lunio adroddiad hunanasesu ar wahân, oherwydd defnyddiwyd yr hunanasesiad i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am sut y cyflawnodd y Cyngor yn ôl ei amcanion llesiant yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol presennol a meysydd sydd angen eu gwella o bosibl.

32 Bydd y Cyngor yn defnyddio ac yn addasu ei weithgareddau ac offer ymgysylltu â rhanddeiliaid presennol i gyflawni ei ddyletswyddau ymgynghori hunanasesu. I osgoi blinder ymgynghori, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar yr hunanasesiad yn ystod y flwyddyn, yn hytrach nag ymarfer penodol unigol. Mae'r dull o ymgynghori ar yr hunanasesiad yn glir yn ei Strategaeth Gyfranogiad Ddrafft.

33 Cymeradwywyd cyfansoddiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor gan y Cyngor a’r Pwyllgor Archwilio fel chwe chynghorydd a thri aelod annibynnol, ac mae’r penderfyniad i ddirprwyo awdurdod i ddiwygio’r cyfansoddiad wedi’i wneud. Er bod yr ymateb i’r ymgyrch recriwtio gychwynnol yn wael, cynhaliwyd ymgyrch recriwtio arall ym mis Ionawr 2022. Mae'r tri aelod annibynnol newydd wedi'u recriwtio a'u penodi erbyn hyn.

34 Nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar hyn o bryd a dywedodd nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau penodol i'w ddefnyddio yn y dyfodol agos.

# Cynllun lleihau carbon

**Mae Powys yn deall yn iawn maint yr agenda hon, a'r strwythurau cynhwysfawr sydd ar waith i ddatblygu a rheoli gweithgarwch. Fodd bynnag, nid yw wedi cyhoeddi cynllun gweithredu sero net wedi'i gostio'n llawn eto, ac mae angen iddo wneud mwy o waith i ddeall yn llawn cost ei weithgarwch arfaethedig sy'n cyfrannu at yr agenda sero net.**

### Cyd-destun

35 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd bwrw golwg ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei wireddu. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol, cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ymdrin â nhw ar y cyd i wireddu'r uchelgais ar y cyd. Er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, nodwyd gennym fod yn rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

36 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn galw ar gyrff cyhoeddus i weithredu yn y pum maes canlynol:

- Cryfhau arweinyddiaeth a dangos cydgyfrifoldeb drwy gydweithio effeithiol
- Egluro cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y broses o roi camau gweithredu ar waith
- Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch
- Gwybod beth yw eich bylchau o ran sgiliau a chynyddu capasiti
- Gwella ansawdd data a threfniadau monitro data i ategu eich penderfyniadau

37 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yn perthyn o fewn cyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am fwy o gyflymder ac arweinyddiaeth gryfach ledled Cymru i leihau allyriadau carbon.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

38 Cynhaliwyd asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Gweithredu ac Argyfwng Hinsawdd rhwng mis Mai a mis Awst 2022. Casglwyd tystiolaeth drwy gyfweliadau, adolygiadau o ddogfennau a'r Alwad am Dystiolaeth a ddychwelwyd gan y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Sylfaenol o Ddatgarboneiddio.

## Yr hyn a nodwyd gennym

39 Mae'r Cyngor yn deall yn iawn ei agenda ac wedi creu strwythur o grwpiau a rolau mewnol ynghyd â chynlluniau cyhoeddedig, gan gynnwys Powys Positif-Net 2021-2030 a Strategaeth Ynni Carbon Bositif, a gyhoeddwyd yn 2018 fel rhan o Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 'Tuag at 2040' er mwyn helpu i ddatblygu a rheoli polisïau a gweithgarwch sy'n cyfrannu at leihau ei allyriadau.

40 Fodd bynnag, nid yw'r gweithgarwch llawn sydd ei angen i gyflawni allyriadau sero net wedi'i gostio na'i integreiddio i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Felly, mae risg sylweddol na fydd y Cyngor yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o allyriadau sero net erbyn 2030.

41 Sefydlodd y Cyngor weithgor trawsbleidiol fel rhan o'r Rhybudd o Gynnig – Datganiad Argyfwng Hinsawdd a wnaed ym mis Medi 2020 i gefnogi'r gwaith ar yr agenda hon. Mae'r cyngor wrthi'n adolygu'r trefniadau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Pwyllgor Craffu perthnasol y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am y portffolio hwn wedi'i gadarnhau eto.

42 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Argyfwng Hinsawdd mewnol. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys aelodau o swyddogion o holl feysydd gwasanaeth y cyngor ac mae ganddo weithgorau i'w gefnogi. Y gweithgorau hyn sy'n gyfrifol am ddrafftio'r cynlluniau gweithredu, a fydd yn nodi ac yn costio gweithgarwch yn y dyfodol i gyrraedd allyriadau sero net. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd eto.

43 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu creu grŵp rhanddeiliaid i lywio a thrafod gweithgarwch ynghylch yr agenda hon. Bydd y grŵp yn cynnwys aelodau allanol, a nod y Cyngor yw ymgysylltu ag unigolion a grwpiau sydd â gwybodaeth a diddordeb yn y maes hwn, megis Gweithredu dros Argyfwng Hinsawdd Powys.

44 Mae'r Cyngor yn ystyried datblygu dulliau cyfathrebu allanol i godi proffil yr agenda hon gyda phreswylwyr a busnesau. Mae hefyd yn bwriadu cynnal digwyddiad Argyfwng Hinsawdd ym mis Mawrth 2023 ar gyfer rhanddeiliaid, sefydliadau a chymunedau. Mae'n gobeithio lansio ei gynllun gweithredu wedi'i gostio yn y digwyddiad hwn.

45 Mae dau swyddog sy'n cefnogi'r gwaith hwn yn y Cyngor, un yn gwbl ymroddedig ac un yn rhannol ymroddedig, sy'n arweinydd y Strategaeth Economi a Hinsawdd. Mae'r pedair swydd yn dod o dan y gwasanaeth Cynllunio, Eiddo a Diogelu'r Cyhoedd.

46 Nid yw'r Cyngor wedi drafftio cynlluniau gweithredu wedi'u costio eto o'r holl weithgarwch sydd ei angen i gyflawni sero net erbyn 2030. Mae angen i'r Cyngor nodi a oes digon o adnoddau staff, amser a chyllid ar gael i gyflawni sero net. Er enghraifft, mae llawer o asedau a stoc adeiladau'r Cyngor yn hen ac nid ydynt yn

addas ar gyfer prosesau ail-osod modern a fyddai’n lleihau allyriadau. Mae hyn yn berthnasol i stoc tai ac adeiladau ysgolion y Cyngor.

# Argymhellion

**Arddangosyn 4: argymhelliad**

Mae’r tabl isod yn nodi’r argymhelliad rydym wedi’i nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhelliad | |
| --- | --- |
| A1 | Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu arfaethedig yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.